**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd nos Lun, Mehefin y 13eg 2022 yn Neuadd Rhoshirwaun am 7yh**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Nesta Roberts, Wil Evans, Jaci Jones, Mari Evans, Emlyn Jones a Dafydd Williams
**Yn y gadair:** Cyng Wenda Williams

**Roedd Rhian George o Adran ac Alys Jones o Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd yn bresennol ar ddechrau y cyfarfod i drafod Canolfan Crud y Werin. Datganodd y Cadeirydd, Y Cyng Wenda Williams ddiddordeb yn yr eitem yma a ni chymerodd ran yn y drafodaeth. Cymerodd y cyn is-gadeirydd, y Cyng Nesta Roberts y gadair ar gyfer yr eitem yma.**
Cyflwynwyd cefndir y mater a phwysleiswyd mai y ffaith fod cyfansoddiad y ganolfan wedi ail ei wneud heb ymgynghoriad gyda'r gymuned leol a'r defnyddwyr ydi gwraidd y broblem. Canolfan gymunedol ydi Canolfan Crud y Werin ac fe'i hadeiladwyd yn dilyn tynnu hen neuadd yn y pentref i lawr yn yr 1970au. Arferai aelodau o gymdeithasau lleol ynghyd a'r Cyngor Cymuned fod yn rhan o bwyllgor y ganolfan ond yn dilyn bwlch o flynyddoedd heb gynnal cyfarfodydd lluniwyd cyfansoddiad newydd ac ni chafodd y Cyngor gyfle i benodi cynrhychiolydd, a mae mwyafrif y pwyllgor newydd yn gysylltiedig â'r ysgol.
Eglurodd y swyddogion nad oes copi o'r cyfansoddiad gwreiddiol ar gael ac o ganlyniad rhoddwyd cyfarwyddyd i Adran yr Economi a Chymuned lunio cyfansoddiad newydd. Roedd y swyddogion yn deall safbwynt y Cyngor ac eglurwyd fod y cyfansoddiad wedi ei lunio gan ddilyn canllawiau a gofynion yr oes sydd ohoni.
Ar hyn o bryd mae pennaeth yr ysgol yn rhinwedd ei safle fel warden y ganolfan, dau lywodraethwr gan gynnwys y llywodraethwr dynodedig iechyd a diogelwch, aelod o staff yr ysgol, y Cynghorydd Sir ac aelod o'r Cyngor Cymuned yn ffurfio y pwyllgor. Penodwyd yr aelod o'r Cyngor sydd yn cynrhychioli y Cyngor ar y llywodraethwyr yn gynrhychiolydd Cyngor Cymuned, a hynny gan yr ysgol, heb ymgynghori.
Cytunwyd y byddai modd adolygu y cyfansoddiad newydd er mwyn sicrhau fod y Cyngor Cymuned yn cael penodi cynrhychiolydd ynghyd ag edrych i fewn i'r angen am ail aelod o staff yr ysgol fod yn aelod. Pwysleiswyd gan aelodau y Cyngorn fod angen gwell cydbwysedd ar y pwyllgor.
Bydd yr Adran Economi a Chymuned yn ymgynghori gyda'r Cyngor cyn mabwysiadu y cyfansoddiad yn dilyn yr adolygiad.
Eglurwyd fod pryderon iechyd a diogelwch oherwydd nad ydi y brif fynedfa wedi bod yn cael ei defnyddio ar gyfer mynediad y cyhoedd, ond yn ddiweddar mae drws y brif fynedfa wedi bod yn cael ei ddefnyddio. O ganlyniad gobeithir fod y broblem yma wedi ei datrys.
Nodwyd fod copiau o ohebiaeth rhwng Sefydliad y Merched Aberdaron a Chyngor Gwynedd wedi eu derbyn er gwybodaeth.
**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb</u>: Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng Tim Rosa**
**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd:</u>** Croesawyd y Cynghorydd Sir, Gareth Williams i'r cyfarfod fe'i llongyfarchwyd am ei lwyddiant yn yr etholiad diweddar. Dymunwyd yn dda i'r Cyng Jaci Jones sydd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar.
Cydymdeimlwyd a theulu y diweddar Alwyn Hughes, Morannedd a fu farw yn ddiweddar, roedd yn gyn aelod o'r Cyngor.
**<u>3)Seddi gwag:</u>** Derbyniwyd dau enw ar gyfer y seddi gwag yn ward Rhoshirwaun sef Gwenllian Hughes-Jones a RJ Williams, penderfynwyd derbyn eu cais i ymuno gyda'r Cyngor a'u gwadd i'r cyfarfod nesaf.
Derbyniwyd pump enw ar gyfer y ddwy sedd wag ar ward Aberdaron a chyfetholwyd Dafydd Myrddin a Dewi Evans yn aelodau. Bydd y clerc yn eu gwybyddu a'u gwahodd i'r cyfarfod nesaf.
**4)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed o Fai 2022</u>**: Nodwyd fod y Cyng Mari Evans yn bresennol ac nid oedd ei henw wedi ei gofnodi
**<u>5</u>) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**

**i)Ethol is gadeirydd:** Cynnigwyd ac eilwyd y Cyng Wil Evans yn is gadeirydd ac fe'i benodwyd i'r swydd drwy bleidlais

**ii)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**

a)Derbyniwyd ateb gan Kevin Roberts o'r Adran Llwybrau yn egluro fod swyddog o'r adran yn bwriadu cysylltu efo perchennog Tŷ Tan Fron i ofyn iddo sicrhau fod y llwybr yn cael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol.

Mae giat mochyn wedi ei gosod yn lle y gamfa ar lwybr Bryn Du rhwng terfyn Bryn Du a thir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

b)Mae arwydd 'Y Rhiw' ger Tyddyn Meirion wedi ei ail osod.

c)Mae rhai o'r brigau oedd yn rhwystro gweledіad modurwyr ar gyffordd Llidiardau wedi eu torri.

ch)Mae'r conau ar allt Y Rhiw wedi eu symud yn dilyn gwaith atgyweirio ochr y ffordd.

**iii)Materion yr Eglwys Newydd:** Adroddwyd fod cyfarfod buddiol wedi ei gynnal gyda Adam Hitchings o'r Gronfa Treftadaeth Bensaerniol (AHF), Matt Osmont o gwmni penseiri Donald Insall, Caryl Lewis, ymgynghorydd o Gwmni Celyn, Bleddyn Jones y swyddog AHNE ac Alys Jones, swyddog Grantiau Cyngor Gwynedd yn ddiweddar. Bydd yn bosib ymgeisio am grant o Gronfa'r AHNE a chronfa yr AHF ar gyfer gwaith gwneud arolgon etc er mwyn paratoi at ymgeisio am grant i atgyweirio yr eglwys.

Disgwylir y bydd tri pris gan adeiladwyr ar gyfer trwsio to yr eglwys er mwyn ei diogelu dros dro yn cael eu derbyn yn fuan.

Mae Dylan Llŷr wedi tynnu y beipan haearn bwrw beryglus oddi ar wal yr elgwys.

Mae gwir angen symud y pridd o'r fynwent a gosod cerrig mân yn yr adwy tra mae'r tywydd yn sych. Penderfynwyd gofyn i William John Jones wneud y gwaith mor fuan a phosibl. Fe wnaiff y Cynghorwyr Wil Evans a Dafydd Williams ei gyfarfod ar y safle i roi cyfarwyddiadau o beth sydd angen ei wneud iddo.

**iv)Yr afon ym mhentref Aberdaron:** Mae Rhydian Roberts, swyddog Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi cyslltu gyda'r clerc er mwyn hysbysu y Cyngor Cymuned ei fod yn ymchwilio i'r sefyllfa ac y bydd y cysylltu gyda'r Cyngor eto yn fuan.

**vi)Arogl drwg ar allt Pensarn:** Mae Dwr Cymru wedi adrodd eu bod mewn trafodaeth gyda maes carafanau cyfagos i geisio datrys y broblem o ddrewdod.

**vii)Tŷ'r Ysgol Deunant a safle Llidiardau**: Nid oes ymateb hyd yma, pwysleiswyd ei bod yn bwysig derbyn ateb.

**viii)Parcio yn Aberdaron**: Derbyniwyd copi o'r adroddiad yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar er gwybodaeth.

**6) <u>Gohebiaethau</u>**

i)Llythyr gan Bleddyn Jones ynghylch Cynllun awyr Dywyll (er gwybodaeth)

ii)Llythyr gan Mai Bere yn nodi y Cyhoeddir Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 ym Mhorthmadog ar y 25ain o Fehefin (er gwybodaeth).

ii)Ymgynghoriad Rhwydwaith Teithio Llesol (er gwybodaeth)

**7)Adroddiad gan y Cadeirydd o gyfarfod ardal Unllais Cymru:** Adroddodd y Cadeirydd fod Andrew Dunbobbin, Comisiynydd yr Heddlu yn bresennol a'i fod wedi datgan ei fod yn awyddus i weithio gyda Cynghorau Cymuned. Roedd y Cadeirydd wedi codi y mater o bobl yn yfed yng nghanol pentref Aberdaron a bod angen mwy o bresenoldeb yr heddlu yn y pentref.

Roedd Mel ab Owain o Unllais Cymru hefyd wedi sôn am yr angen i gynghorwyr cymuned fynychu cyrsiau hyfforddiant a bod angen darparu adroddiad blynyddol.

Penderfynwyd gofyn i Unllais Cymru os oes posib trefnu cwrs hyfforddiant Côd Ymddygiad i'r Cyngor.

**8) <u>Cynllunio</u>**

C22/0450/30/DT: Codi estyniad deulawr to brig llechi i'r cefn ynghyd a newidiadau i agoriadau blaen a chefn gan gynnwys darparu ffenestr ddormer to brig llechi a gosod drysau gwydrog math 'juliet' ar yr edrychiad blaen - Gilfach, Rhydlios: Dim gwrthwynebiad

C22/0432/30/DT: Bwriad / Proposal: Estyniad deulawr ochr i gynnwys ystafell chware/dydd synhwyraidd ac ystafell ymolchi ar y llawr daear ac ystafell wely llawr cyntaf - Dwynant, Aberdaron: Dim Gwrthwynebiad

C22/0513/30/DT Estyniadau ac addasiadau i Trofa, Rhiw: Dim gwrthwynebiad
Penderfynwyd gofyn i'r Adran Gynllunio am gopiau caled o'r ceisiadau cynllunio.
C22/0547/30/DT C Codi modurdy arwahan, Siop Penrallt, Botwnnog: Gwrthwynebu gan ei fod yn or-ddatblygiad, cwestiynir yr angen am ffenestri dormer mewn modurdy.

**9)Ariannol**

i)Derbyniwyd aadroddiad yr archwiliwr mewnol, nid oedd dim wedi ei godi yn yr adroddiad. Derbyniwyd y datganiad llywodraethu yn  y Ffurflen Flynyddol a phenderfynwyd fod y wybodaeth a gyflwynir yn gywir. Arwyddwyd y ffurflen gan y Cadeirydd a'r clerc.

**Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:
Iwan Hughes: £195.53
HMRC (Paye): £48.80
Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O)
Aelodaeth Unllais Cymru: £187
Canolfan Crud y Werin: £20 (cyfarfod cyhoeddus)
Huw Williams: £850 (barbio llwybrau)
Emlyn Jones: £49.59 (padiau ar gyfer y defib)

**Derbyniadau**

Dim wedi eu derbyn

**10) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i)Mae pryder ynghylch y garreg sydd wedi ei tharo gan lori ar bont Aberdaron, os caiff ei tharo eto mae'n bosib iddi syrthio i lawr ac o ganlyniad mae yn creu perygl i'r cyhoedd.

ii)Mae wal flocs wedi ei chodi i lenwi bwlch yn y wal gerrig tu cefn i'r Gegin Fawr, mae yn edrych yn flêr pan yn edrych o gyfeiriad allt Pensarn. Penderfynwyd cysylltu gyda yr Adran Gynllunio er mwyn trafod.

iii)Mae angen barbio ffyrdd yr ardal a nododd y Cynghorydd Sir y bydd y gwaith barbio yn dechrau ddiwedd y mis. Nodwyd fod angen barbio ochr chwith y ffordd rhwng pen lôn Bugeilys ac Eglwys Bodferin.

iv)Derbyyniwyd cwyn fod 'camper vans' yn stopio dros nos a gadael sbwriel mewn cilfanau yn yr ardal. Tynnwyd sylw fod Cyngor Cymuned Pistyll wedi rhoi cwyn yn eitha diwet=ddar am y sefyllfa yn y safle parcio yn nhop Nant Gwrtheyrn. Penderfynwyd holi i weld beth ddaeth o'r gwyn yma.

v)Adroddodd y Cynghorydd Sir fod Rheolwr Traffig a Phrosiectau Cyngor Gwynedd wedi galw am gyfarfod gyda Heddlu Gogledd Cymru a 'Ganbwyll' i drafod y gor-yrru ar y B4413 ger Cwt Chwarel.

vi)Adroddwyd fod twll mawr yn y ffordd cyn cyrraedd Pont Bodernabwy, a hysbysodd y Cynghorydd Sir fod bwriad i ail wynebu y ffordd yn fuan.

vii)Derbyniwyd cwyn fod ochrau y ffordd o Nant y Gadwen i gyfeiriad Eglwys Llanfaelrhys wedi gostwng.

viii)Adroddodd y Cyng Emlyn Jones fod padiau newydd ar gyfer y defibs ynghyd ag 'adapter' yn ei feddiant ef ac fe fydd posib cysylltu gyda fo os fydd un o'r defibs wedi ei ddefnyddio ac angen pad newydd.

iv)Derbyniwyd cwyn am geir wedi eu parcio is i lawr na'r Ship yn Llanbedrog. Penderfynwyd anfon y gwyn at Gyngor Llanbedrog.

v)Mae angen ail baentio llinellau gwyn ar fyrdd yr ardal, nid yw y gwaith wedi ei wneud er fod gaddewid wedi ei roi gan Gyngor Gwynedd fisoedd yn ôl, Nodwyd nad oes posib gweld y llinellau gwyn ar y ffordd heibio Lodge Nanhoron.

vi)Derbyniwyd cwyn am faniau wedi eu parcio trwy y dydd yn uwch i fyny na Becws Islyn yn Aberdaron, nid oes gan y Cyngor wrthwynebiad iddynt gael eu parcio yno i lwytho ond maent yn rwystr i draffig gan eu bod yno trwy y dydd.

vii)Penderfynwyd gofyn am ddiweddariad ar y cynllun i greu palmant rhwng yr ysgol a stad Bro Hywyn.
viii)Penderfynwyd gofyn am arwydd ‘Araf’ ynghyd ag arwydd troeadau ger Geufron, Aberdaron.
ix)Penderfynwyd gofyn am arwydd dim cwn i’r chwith o’r fynedfa i’r traeth o faes parcio Henfaes.
x)Penderfynwyd gofyn i’r Adran Forwrol pryd y bydd y bwiau yn cael eu rhoi allan eleni.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o’r Cyngor Cymuned, nos Lun 11eg Gorffennaf yn Neuadd Y Rhiw am 7.30yh**